ichthus

CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BEREA NEWYDD, BANGOR
Rhif 3 Cyfrol 10 Gorffennaf 2013

GWEINIDOG: Y PARCHEDIG ERIC JONES BD
Gwernyfed, Penrhosgarnedd, Bangor LL57 2DZ Ffôn 01248 362127
e-bost: ericaval@btinternet.com

www.gofalaethbangor.org - 01248 353132 (swyddfa)

GWASANAETHAU'R SUL

10.00: OEDFA DEULUOL GAN GYNNWYS YSGOL SUL Y PLANT
11.00: YSGOL SUL YR OEDOLION **5.30:** OEDFA'R NOS

Gorff. 21	Gweinidog
28	Undebol Penuel Gwilym Williams , Bore Carys Ann Lewis, Hwyr
Awst 4	Undebol Pendref Trefor Jones
11	Undebol Berea Newydd Parch. W.I. Cynwil Williams
18	Undebol Penuel Olaf Davies
25	Undebol Berea Newydd

Medi 1	Gweinidog
8	Parch. Gerallt Lloyd Evans
15	Gweinidog
22	Undebol Penuel, Hwyr
29	Parch. Dafydd Andrew Jones
Hydref 6	Gweinidog
13	Parch. Gareth Edwards
20	Gweinidog
27	Parch. Ddr. Elwyn Richards

DYLETSWYDDAU

	Blaenor y pythefnos
Gorff. 21	Elin Walker-Jones
28	Eirian Howells
Awst 4	Undebol Pendref
11	Eirian Howells Undebol Berea Newydd
18	Undebol Penuel
25	Cynthia Owen Undebol Berea Newydd
Medi 1	Cynthia Owen Cymun Bore

Blaenor y pythefnos	
8	Menna Baines
15	Menna Baines
22	John Griffith
29	John Griffith
Hydref 6	Aled Harri Jones Cymun Hwyr
13	Aled Harri Jones
20	Gwilym Roberts
27	Gwilym Roberts

RHODDWYR Y BLODAU (Cydlynydd: Elizabeth Roberts - 353915)

21 Gorffennaf	Elin Walker Jones
28 Gorffennaf	Eirlys Jones
4 Awst	U Pendref
11 Awst	U S Buchann
18 Awst	U Penuel
25 Awst	U Nia Williams
1 Medi	Lynn Jones
8 Medi	Liz Roberts

15 Medi	Heulwen Maxwell
22 Medi	Caren Lewis
29 Medi	Lis Jones
6 Hydref	Menna Leyshon
13 Hydref	Helen Morris
20 Hydref	Delyth Williams
27 Hydref	Bethan Whittall

GAIR GAN Y GWEINIDOG

Diolch o galon i bawb a weithiodd tuag at lwyddiant y Daith Gerdded a Pharti'r Dathlu. Clywais aml un yn dweud bod angen y math yma o beth yn amlach, er mwyn i ni gael dod i adnabod ein gilydd yn well, o'r hynaf i'r ieuengaf. Diolch i'r Nef am ddathliadiau mor llawen. Edrychwn ymlaen bellach am ein Gwasanaeth o Ddiolch a'r Cyngerdd ar y Sul, Hydref yr 20fed.

Siomedig oedd y gefnogaeth o blith y plant i Fawl y Plant ym Methesda, a gwarthus oedd cefnogaeth yr oedolion i'r Mawl Mehefin yn yr hwyr. Cynhelir y Sul hwn o fawl yn ein capel ni'r flwyddyn nesaf, felly gofalwn y bydd gwell cefnogaeth, gan gofio mai holl bwrpas y Sul hwn ydyw hyrwyddo ein mawl i Dduw. Onid ydym angen pob cymorth yn y cyfeiriad hwn?

Llongyfarchwn y Parch Cledwyn R Williams ar ei waith rhagorol yn undeb Athrofa'r Bala eleni, a gynhaliwyd yn Llandudno. Bu ei gyfraniad fel cyn swyddog yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn un tra gwerthfawr wrth i'r gynhadledd Gristnogol hon drafod y thema Adnabod Cymdeithas.

Clywais aml un yn mynegi eu gwerthfawrogiad am ein cylchgrawn chwarterol, ac yn eu plith nifer ohonoch sy'n methu cyrraedd y capel am amrywiol resymau. Anfonwn ein cofion cynhesaf atoch oll, gan ddiolch ichi am eich cefnogaeth a'ch geiriau caredig. Un o'r bobl yma oedd Mrs Margaret Williams, Tyddyn Bach, a fu farw'n ddiweddar. Bydd colled fawr ar ei hôl, ac estynnwn ein cydymdeimlad dyfnaf â'i hanwyliaid.

Braint oedd cael derbyn y rhai ifanc yn gyflawn aelodau, a gobeithio eu bod hwythau yn ymdeimlo â'u braint. Croeso twym galon hefyd i Ani Glyn a Lal Ifan a ddaeth yn aelodau trwy fedydd. Llongyfarchwn Rhys a Manon ar enedigaeth Efan Heber a Dylan a Siwan ar enedigaeth Owi Glyn. Boed bendith y Nef arnoch oll.

Deuthum adref wedi cyfnod o seibiant llesol, ond o fewn oriau derbyniais y newydd trist fod Delyth Wyn Davies yn terfynu ei chytundeb gyda ni, a bydd yn gorffen ar Awst y 12fed. Dyma beth yw colled. Anfonodd air annwyl iawn o werthfawrogiad am bob cefnogaeth a gafodd yn ein plith. Bydd yn parhau yn y swydd o dri diwrnod yr wythnos, a gyflawnodd ers tymor y Pasg yn ysgol Chwilog. Diolchwn o waelod calon iddi a dymunwn bob bendith iddi hi a'r teulu i'r dyfodol.

Cofion caredig,
Eric Jones

PROFIAD BYTHGOFIADWY

Y PARCHEDIG CLEDWYN R. WILLIAMS

Ddydd Iau, Ebrill 17eg. ymunais â thorf o 2,500 yn Derry i wrando ar y Dalai Lama XIV yn cyflwyno'r araith gyweirnod yn y Gynhadledd ar 'Diwylliant Trugaredd' Fe'i gwahoddwyd gan ei ffrind Richard Moore, sefydlydd yr elusen 'Children in Crossfire'.

Cerddodd y Dalai Lama o City Hotel tros y Peace Bridge i'r Venue, a hynny yng nghwmni 350 o blant ysgolion y ddinas. Ffordd i gerddwyr dros Afon Foyle yw'r Bont Heddwch; adeiladwyd ar gost o £14 miliwn. Ei hamcan yw cysylltu'r ddwy ran o'r ddinas a rwygwyd gan drais.

Yn ei sgwrs, pwysleisiodd y Dalai Lama fod heddwch yn hawl bwysig. Dyn, o'i ddewis, sy'n gyfrifol am drais; dyn sy'n chwalu heddwch. Yr un modd, dyn yn unig a all sefydlu heddwch. Aeth fy nghanrif i a'm cyfoedion heibio i'r genhedlaeth newydd nid yw ond dechrau. Rhaid i'r ganrif hon fod yn un o ddeialog; canrif o drais oedd y ganrif ddiwethaf a chladdwyd 200 miliwn. Profwyd nad yw trais yn ffordd i hapusach na gwell byd.

Yn awr, toes gennym ddim dewis.

Ni ddylid cymysgu crefydd â gwleidyddiaeth. Gochelwch weithredu a ddeillia o rwystredigaeth. Caledu calon wna rhwystredigaeth. Canmil gwell yw'r ymchwil am atebion; siarad â'n gilydd. Ni all meddwl digalon weld y realiti. O syniadau hunanol y cyfyd rhagfuriau - arall yn teimlo'r oerni yn syth, yn cadw hyd braich, a thrwy hynny'n rhoi lle i amheuaeth a drwgdybiaeth. Allwch chi adeiladu dim o hynny. Drwy estyn allan y ceir ymateb.

Cofiaf wisg draddodiadol syml y Dalai Lama, y sanadalau am ei draed, ei bersonoliaeth fawr. Cofiaf gyfeiriad at ei fam fel sylfaen ei fywyd. Cofiaf ei ymateb i'r cwestiwn "Lle mae trugaredd yn Syria?" - "Tydw i yn wir ddim yn gwybod". Cofio ymateb y dorf yn syth - cymeradwyaeth angerddol.



Llun:
Luca Galuzzi - www.galuzzi.it

GŴYL PEN TYMOR

DELYTH WYN DAVIES

Daeth blwyddyn yr Ysgol Sul i ben ar ddydd Sul 7 Gorffennaf gydag Oedfa Gŵyl Pen Tymor ym Merea Newydd. Cyfle yw hwn i ddathlu ac i ddiolch am y flwyddyn o weithgarwch yn yr Ysgol Sul ac i fyfyrio ar yr hyn a ddysgwyd yn y gwersi. Bu pob dosbarth yn brysur yn paratoi eitemau yn rhannu rhywfaint o weithgarwch y flwyddyn â'r gynulleidfa luosog. Defnyddiwyd caneuon a ddysgwyd ar gyfer Moliant y Plant ym Mehefin a chafwyd canu hwyliog i gyfeiliant Mrs Sioned Jones ar y piano. Dosbarthiadau'r plant lleiaf ddaeth ymlaen yn gyntaf i ganu 'Pwy wnaeth y sêr uwchben?' a 'Cariad Iesu Grist'. Yna cafwyd cyflwyniad ar ffurf cwis a thrafodaeth gan Ddosbarth Blwyddyn 5 a 6 ar hoff gymeriadau'r Hen Destament. Roeddent wedi paratoi'n fanwl, gan gynnwys clipiau fideo i wneud i'r gynulleidfa feddwl, ond gwnaed y cyflwyniad yn fyw ar y dydd, a hynny'n effeithiol iawn. Cawsom aros yn yr Hen Destament gyda chyflwyniad Dosbarth Blwyddyn 2 a 3 ar Josua a Brwydr Jericho a oedd yn cynnwys props ac effeithiau sain a oedd yn peri i ni chwerthin.

Aeth Dosbarth Blwyddyn 4 a 5 â ni i'r Testament Newydd gyda'u cyflwyniadau ar Fy Hoff Stori, pob un ohonynt yn stori am Iesu Grist neu'n un o ddamhegion Iesu. Dilynwyd hyn gan cyflwyniad CIC Bach, sef y gân 'Iesu yw Goleuni'r Byd', gan ddysgu'r gynulleidfa i ddawnsio llinell. Braf oedd cael y cyfle unwaith eto i ganu Gweddi'r Arglwydd ar alaw hyfryd Sioned Jones gyda'r holl blant yn ein harwain o'r blaen.

Crynhowyd y cyflwyniadau mewn sgwrs gan Delyth. Gyda help Siwan ac Owain yn defnyddio lego clywyd am bwysigrwydd gwrando a gwneud yr hyn mae Iesu yn ei ddysgu inni, yn union fel yn stori Iesu am y ddau dŷ.

Wedi'r oedfa daeth nifer fawr o deuluoedd Berea Newydd i'r Gelli Gyffwrdd i fwynhau picnic a'r amrywiol weithgareddau hamdden sydd i'w cael yno. Cafwyd amser gwych yno yn y tywydd braf ac roedd pawb wedi mwynhau'n arw ond wedi blino erbyn amser mynd adref!

BANC BWYD BANGOR A CHAERNARFON

PAM FOD ANGEN BANC BWYD BANGOR A CHAERNARFON?

Wedi'r moliant ym Methesda ar y trydydd Sul o Fehefin pryd y derbyniwyd rhoddion o fwyd tuag at y banciau bwyd uchod, derbyniwyd llythyr o ddiolch gan y trefnydd Randolph Elis o'r gadeirlan...os ydych am ddarllen y llythyr yn llawn edrycher ar wefan yr Henaduriaeth. http://www.henaduriaetharfon.org/. ond dyma ichi un paragraff ohono.

Gall y rhai sy'n derbyn ein bwyd fod yn rhai sydd newydd ddioddef profedigaeth ac sy'n ei chael yn anodd i ddygymod, neu'n famau ifainc y mae magu plant yn mynd yn drech na nhw. Gallant fod yn bobl sy'n disgyn rhwng dwy stôl o ran budd-daliadau'r wladwriaeth a heb fod ag unrhyw adnoddau eraill i ddisgyn yn ôl arnyn nhw. Gallant fod yn bobl sydd â phroblemau iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl) sydd yn eu cael eu hunain heb fodd i'w bwydo eu hunain. Gallant fod yn rhai sy'n ddi-gartref am iddynt fethu â thalu'r morgais (neu wedi eu taflu allan o lety am fethu â thalu'r rhent.)

CORNEL CODI GWÊN

GLYN LLOYD JONES

Roedd pob sedd yn llawn mewn eglwys yn Iwerddon ar gyfer y gwasanaeth Sul pan gerddodd tri dieithryn i mewn. Pan welodd yr offeiriad nhw, dywedodd:

"Three chairs for the visitors."

Yn y rhan fwyaf o wledydd buasai tair cadair wedi ymddangos i'r ymwelwyr gael eistedd arnynt. Ond nid felly ar yr Ynys Werdd.

Cafwyd syndod wrth i'r gynulleidfa ymateb yn syth drwy weiddi:

"Hip, Hip, Hurray!"

Da 'di'r Gwyddelod!!

GWEFAN NEWYDD

Cofiwch droi at www.henaduriaetharfon.org

O ENAU'R MEDDYLWYR

GOLWG AR LYFR NEWYDD GAN UN O WEINIDOGION BANGOR



MIL A MWY O BERLAU: Trysorfa o Ddyfyniadau Cyfoethog gan Olaf Davies (Cyhoeddiadau'r Gair, £11.99)

Yn y gyfrol hon ceir mil a mwy o ddyfyniadau gan feddylwyr crefyddol ar hyd y canrifoedd, pob un yn drysor. Maen nhw'n rhychwantu'r canrifoedd a'r cenhedloedd, o'r Beibl a doethinebau Athanasiws at C. S. Lewis a Rowan Williams. Maen nhw'n cynnwys gwirioneddau a fathwyd gan feirdd a llenorion o Alexander Pope i Waldo Williams. Ceir hefyd ddyfyniadau gan rai mor annisgwyl ag Agatha Christie a Cliff Richard.

Dyma gyfrol a ddylai fod wrth benelin pob Cristion. Yn bwysicach fyth, dylai fod wrth benelin pob anghrediniwr. Mae'n ffynhonnell ddihysbydd o ddoethinebau a gwirioneddau, a'r cyfan yn berthnasol i'n hoes ni.

Dosberthir y dyfyniadau i wahanol themâu: 'Addoli ac Ymddistewi'; 'Myfyrio a'r Greadigaeth'; 'Duw'r Tad ac Iesu/Person Crist'; 'Yr Ysbryd Glân'; 'Yr Eglwys' ac 'Y Bywyd Cristnogol a Chymdeithas y Byd'.

Mae hon yn un o'r cyfrolau hynny y medrwch eu tynnu o'r silff a'u hagor ar hap. Pa dudalen bynnag wnaiff daro'ch llygad, cewch rywbeth i gnoi cil arno. Felly dyma roi cynnig arni ar gyfer yr adolygiad hwn. Cau fy llygaid a gadael i'r gyfrol ddisgyn yn agored yn fy nwylo. Gwnaeth hynny rhwng tudalennau 108 a 109. Fel enghreifftiau o ddyfyniadau ar 'Y Bywyd Cristnogol' ceir ar y ddwy dudalen syniadau gan Gwynfor Evans, Daniel Owen, Gwenallt, Emrys ap Iwan, T. Glyn Thomas, Sant Ioan y Groes ac Elfed. Dyna i chi amrywiaeth o gwmwl tystion.

Dyma agor ar hap eto – tudalennau 136 a 137 y tro hwn, adran 'Y Bywyd Cristnogol'. A dyma i chi rai o'r enwau sy'n tasgu o'r tudalennau: Billy Graham, Desmond Tutu, John Henry Newman, Charles H. Spurgeon, James Hudson Taylor ac Alfred Tennyson. Am gasgliad o feddylwyr.

Gallwn gynnig dwsinau o ddyfyniadau perthnasol i chi. Bodlonaf yma ar eiriau Dwight E. Stevenson: 'Nid cynulleidfa o bobl gyfiawn yw'r Eglwys Gristnogol. Cymdeithas o'r sawl sy'n gwybod nad ydynt yn dda ydyw.' Amen, medde finne.

LYN EBENEZER

Crynodeb yw'r uchod o adolygiad oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

ADNABOD EIN GILYDD

GWENNO PRITCHARD, LLWYN TEG, PENRHOSGARNEDD

MALDWYN THOMAS

GWREIDDIAU YN Y PENTREF

Mae Gwenno yn y parlwr a phopeth yn ei le. Dillad lliw hufen a'i gwallt yn daclus. Dodrefn lliw hufen heblaw am y piano sydd yn sgleinio'n dywyll. Mae yna flodau sirol pêr yn y fâs a'u lliwiau nhw yn adlewyrchu yn y bwrdd bach wrth ochr y lle tân.

Hogan o'r pentre ydi hi - yn un o'r cwmni dethol o bobl Penrhosgarnedd sydd yn aelodau ym Merea Newydd - plant y pentre - Gracie Williams a Menna Evans yn Ffordd Crwys a Gwenno hithau yn 'Llwyn Teg'. Genod hen Ysgol y Faenol a Chapel y Graig.

"Pentre bach oedd o pan oeddwn i'n blentyn, a phawb yn nabod ei gilydd".

Mae ei thad yn gweithio i gwmni bach o adeiladwyr yn yr ardal a'i mam yn gweithio - cyn priodi - yn garej fawr 'Jones Bros', wrth ochor sinema'r Plaza. Y ddau yn priodi ym mis Mawrth 1939 a chysgodion y rhyfel yn bygwth pawb ym mhobman. Yn anochel mae ei thad yn gorfod mynd i'r fyddin yn 1942, ac aros yn y rhengoedd reit tan y diwedd, yn ymladd yn Burma a Singapore ac India. Welith o mo'i ferch fach am dair blynedd. Y ffarwelio gofidus, y byw pryderus. Aros am lythyr, a dilyn yr hanes yn y papur newydd ac ar y radio. Enwau dieithr pen draw'r byd. A Phenrhosgarnedd mor bell.

BYD PRYSUR Y PUMDEGAU

Mae'r tad yn dŵad adre'n ddiogel, diolch i Dduw am hynny. Ac wedi dinistr y rhyfel mae'r pumdegau'n galw. Sŵn adeiladu sydd yna yn y pentref, bagiau sment, planciau pren, hoelion wyth, a gwaith i bawb. Mae tad Gwenno'n gweithio i gwmni

mawr Pochin erbyn hyn. Mae yna godi maen ar faen ym Mhenrhosgarnedd, Eglwys Sant Pedr, tai Glan Menai, ysgol newydd Y Faenol.

"Mae Syr Michael Duff, sgweiar Y Faenol yn rhan o'r prysurdeb, er nad oeddan ni'n ei weld yn amal yn y pentre."

Mae Gwenno yn tyfu, yn cael gwersi piano a Mamie Noel Jones o'r Felinheli yn un o'i hathrawon. Mae Mamie Noel hefyd yn gyfeilydd yn y Noson Lawen yn Neuadd y Penrhyn. Ond mae yna lawer o bethau'n digwydd yn Neuadd Penrhosgarnedd ei hun; eisteddfodau, cyngherddau, dramâu:

"A finnau'n cystadlu ar y piano, a chanu unawdau a deuawdau, ac adrodd hefyd."

Y Parchedig Woodward Hughes oedd Gweinidog Capel y Graig bryd hynny:

"Dyn reit urddasol oedd o. Does yna ddim llawer o ddynion urddasol yn bod heddiw."

Erbyn hyn mae Alwyn ei brawd bach yn rhan o deulu 'Llwyn Teg', a Gwenno'n symud i Ysgol Ramadeg y Merched ym Mangor:

"Lle ffurfiol a Saesnig iawn. Er i Miss Namora Williams - prifatharwes newydd a ddaeth i'r ysgol pan oeddwn i yno - Gymreigio tipyn ar y lle."

Maes o law mi aiff gwenno i'r Coleg Normal ac Alwyn ei brawd i'r Brifysgol yng Nghaerdydd.

"Mi oeddwn i wedi penderfynu bod yn athrawes pan oeddwn i yn y chweched dosbarth."

ADDYSG ETO, A MWY O ADDYSG

"Roeddwn i'n hapus yn y Normal, er fy mod i wedi colli tipyn o fywyd cymdeithasol y lle am fy mod i'n byw adre."

A'r bobl sy'n aros yn y cof?

"Miss Menai Williams. Mi wnaeth hi argraff fawr. Roedd hi mor eithriadol o hynaws. Roedd o'n braf iawn cael ei chwmni hi am rai blynyddoedd ym Merea Newydd."

Yn y Normal hefyd y mae Mona Price yn yr adran Saesneg a B. L. Davies o'r adran Daearyddiaeth yn gadael eu hôl ar y myfyriwr ifanc. Mae hi'n dysgu ei chrefft ym Mhorthmadog a Blaenau Ffestiniog, cyn dilyn llwybr cyfarwydd yr alltud a mynd i ddysgu yn Lerpwl - pedair blynedd yn ardal Everton, cyn dŵad yn ôl i Gymru a chael lle yn ysgol Hen Golwyn, am dair blynedd, a setlo wedyn am gyfnod hir yn Ysgol Benllech. Wedyn am y Felinheli cyn ymddeol yn awyrgylch Gymraeg ysgol bentref Bethel. Ac wedi ymddeol dyma hyfforddi ar gyfer dysgu plant ag anawsterau ganddyn nhw - plant a oedd yn ei chael hi'n anodd i ddarllen a sillafu yn arbennig.

CYFEILIO YN Y CAPEL

"Mae'n siŵr gen i mod i wedi dechrau cyfeilio yn y Graig rhwng dyddiau Woodward Hughes a Dafydd Lloyd Williams. Roedd yna bedwar ohonom yn cyfeilio

yn 1968 - Mona Chambers, Martin Hughes, Hugh Pritchard a finna."

Wedyn fe ddaw Hugh Williams, yr hanesydd cerdd, i fyw i'r pentre, a fo yn codi'r canu am gyfnod. Mi gymerodd Rhianwen Hughes Roberts at yr organ, a Gwilym Humphreys, y Cyfarwyddwr addysg yntau yn ei dro yn arwain y gân.

"Wedyn Carol Llywelyn, Modlen Lynch a Sioned Jones. A rŵan mae Mona yn dal ati, a Menna Leyshon a Mair Thomas ac Elizabeth Evans a Morfudd Roberts i gyd wrthi."

A Gwenno wrth gwrs.

Mae hi hefyd yn un o flaenoriaid newydd sbon y capel. Woodward Hughes, Dafydd Lloyd Williams ac Eric Jones, dyma'r gweinidogion fu'n ddylanwadau arni hi.

"Anghwrteisi fydda i mi wrthod derbyn bod yn flaenor. Doedd gen i ddim rheswm am beidio â derbyn."

Rydan ni'n sefyll ar riniog 'Llwyn Teg'. Mae nith Gwenno yn priodi yn Llundain ym mis Tachwedd. Merch ei brawd Alwyn, sydd wedi byw yno ers blynyddoedd maith.

"Mae hi'n priodi efo Iddew yn Finchley. Bachgen dymunol iawn."

Dyna'r diaspora Cymreig, a dyna'r diaspora Iddewig.

Ond y mae yna sefydlogrwydd yn 'Llwyn Teg', Penrhosgarnedd. A Gwenno yno, ac yn y capel. Diolch amdani hi a sawl un arall.

PARTI NEUADD YR HENDRE

MEHEFIN 21, TAL-Y-BONT

DATHLU 10

Cynhaliwyd parti i ddathlu pen-blwydd Capel Berea Newydd yn 10 oed yn Neuadd yr Hendre, Tal-y-bont, ar Fehefin 21. I ddechrau'r noson, roedd Delyth Wyn Davies wedi trefnu gemau i'r plant, gan orffen gyda Helfa Drysor. Mwynhaodd 150 o bobl a phlant wledd o fochyn wedi'i rostio gyda thatws a salad. Diolch i Geraint a Gwen Hughes am y mochyn, ac i Dai a Liz Roberts am addurno'r neuadd yn hardd. Rhoddwyd cacen wych gan Mr Arwyn Evans. Wedi'r wledd arhosodd nifer i fwynhau Dawns Werin dan ofal Gareth Emlyn Jones. Diolch i Gwilym ac Enyd Roberts, roedd pawb wedi cael sticer â'u henw arno a daeth nifer i nabod ei gilydd yn well.

Dyma luniau sy'n cyfleu'r hwyl a'r awyrgylch gyda Liz Roberts (dde), yr un a fu wrthi am oriau yn addurno'r neuadd

Y Brenin a'r Frenhines, Geraint a Gwen Hughes (chwith), a roddodd y mochyn a'r cig ychwanegol i fwydo'r cant a hanner a ddaeth ynghyd. A diolch i John Wynn Jones, a gyfrannodd yr hufen iâ i'r plant.

CYMORTH CRISTNOGOL 2013

DELYTH WYN DAVIES

Eleni eto mi ydwyf yn ddiolchgar i'r holl aelodau a wirfoddolodd i fynd o amgylch tai y ddinas i roi cyfle i bobol allu cyfrannu at dlodion y byd. Cawsom Ginio Bara a Chaws ar y dydd Llun ac fe godwyd tua £530 o bunnau trwy'r ymdrech yna. Diolch i bawb a drefnodd yr achlysur. Eleni fe benderfynodd yr ieuenctid y buasent yn aros yn effro trwy'r nos gan obeithio cael eu noddi ac felly casglu arian at Gymorth Cristnogol.

Dyma rai o sylwadau yr ifanc:

Mi oedd y noson ddi-gwsg yn hwyl iawn! Roedden ni'n gorfod codi arian ar gyfer Cymorth Cristnogol wrth gynnal noson ddi-gwsg. Roedd hi'n eithaf anodd aros yn effro o naw tan naw ond mi wnaethom ni lwyddo ac mi wnes i fwynhau yn ofnadwy. *Cadi Gwyn Evans.*

Cawsom lawer o sbri yn y noson ddi-gwsg. Roedd pawb wedi blino'n lân erbyn 9 bore dydd Sadwrn! Roeddym yn ceisio chwarae gemau a gwylio ffilmiau i aros yn effro. Rwy'n hapus wrth feddwl ein bod yn helpu'r elusen Cymorth Cristnogol wrth wneud rhywbeth mor syml. *Mari Angharad Williams.*

Fe gawsom ni gyd lawer o hwyl yn y noson ddi-gwsg er mwyn codi arian ar gyfer Cymorth Cristnogol. Roedd y bwrdd ping pong yn llawer o hwyl ac roeddem yn chwarae arno drwy'r nos! Yn anffodus fe gysgais am 20 munud ac roeddwn yn teimlo yn waeth ar ei ôl. Er gwaetha hyn roedd yn noson i'w chofio a dwi'n methu disgwyl tan y noson ddi-gwsg nesaf. *Gwenno Tomos.*

Yn ystod y noson cawsom chwarae digon o ping pong, diolch i'r bwrdd newydd gawsom ni gan deulu Mrs Peggy Williams. Yn ogystal â hyn cawsom fwyta digon o fferins a gwylio ffilm. Yn anffodus ni lwyddais i bara'r holl noson ond cefais lawer o hwyl heb anghofio ein bod yn ei wneud at achos da. *Gruff Pari.*

Mae'n amlwg fod y bobl ifanc wedi cael amser da ac mae'n wych eu bod wedi llwyddo i gasglu £260 o arian ar yr un pryd. Cyfanswm yr holl ymdrechion yn y capel yma oedd £2153.48 ac ychwanegwyd at hyn drwy rodd gymorth.

DOSBARTH DERBYN 2013

MEILYR JONES

Dros gyfnod o naw wythnos bu grŵp ohonom yn mynuchu'r Dosbarth Derbyn. Y rhai fu yno oedd Llion Hughes, Catrin Haf a Shiwan Gwyn o Gapel Bethania; a Gruff Parri, Rhun Gwilym, Non Morris Jones, Lea Glyn, Daniel Glyn a minnau o Gapel Berea Newydd. Wrth gwrs Y Gweinidog Mr. Jones oedd yn cynnal y dosbarthiadau gyda Delyth yn helpu o dro i dro.

Roeddem yn mynd yn syth i'r dosbarth o'r ysgol, ond cyn dechrau roedd digon o amser i gael tamed i fwyta a rhywbeth i'w yfed.

Roedd y dosbarthiadau yn para oddeutu awr, gyda Mr. Jones yn rhannu'r wybodaeth yn eglur iawn.

Dros yr wythnosau roedd Mr Jones yn ein atgoffa o rai o ddigwyddiadau a storiau arwyddocaol y Beibl. Yr wythnos cyn cael ein derbyn eglurodd y Gweinidog gwir ystyr stori'r croeshoeliad a pham yn wirioneddol ein bod yn cael ein derbyn.

Cafodd y chwech o Gapel Berea Newydd eu derbyn ar y 5ed o Fai a'r 3 o'r Felinheli yng Nghapel Bethania yr wythnos wedyn.

ENWAU LLEOEDD

GLENDA CARR

LLANDYGÁI

Hyd yn gymharol ddiweddar, *Llandegai* oedd furf arferol enw'r plwyf a'r pentref hwn ar gyrion Bangor, a mynn rhai lynu o hyd wrth y ffurf hon. Fodd bynnag, y ffurf swyddogol bellach yw *Llandygái*, a'm tasg i y tro hwn fydd ceisio esbonio'r rheswm dros y newid hwn.

Yn ôl y traddodiad, sefydlwyd yr eglwys yn *Llandygái* yn y bumed ganrif gan Tegai Sant a ddaeth yno o Lydaw. Nid rhyfedd, felly, i'r eglwys gael ei henwi yn 'eglwys Tegai', sef *Llandegai.* Rydym yn ynganu enw'r sant gyda'r acen ar y sillaf gyntaf, sef Tégai, ond hyd yn oed pan arferid sillafu'r enw yn *Llandegai*, ar yr 'a' derfynol y rhoem y pwyslais, nid ar yr 'e'. *Llandegái* a ddywedem, nid *Llandégai*. Mae hyn yn beth rhyfedd oherwydd mae'r acen fel rheol yn disgyn ar y sillaf olaf ond un yn y Gymraeg; dywedwn *Llandŵrog, Llandúdno, Llanŵnda* yn hollol naturiol. Felly, pam *Llandegái* yn hytrach na *Llandégai*? Bellach sillefir yr enw fel *Llandygái* gyda'r acen wedi ei nodi'n glir ar y sillaf a bwysleisir, sef yr olaf. Felly, ai 'Tegai' sydd yma?

Ymhell bell yn ôl ceid arfer ryfedd yn y Gymraeg o ddefnyddio geiryn bach ar ddechrau enw personol i ddynodi parch neu anrhydedd. Y rhagddodiad hwn oedd *ty-*, neu *dy-* ambell waith. Yn eu llyfr *Dictionary of the Place-Names of Wales* galwodd Hywel Wyn Owen a Richard Morgan y rhagddodiad bach hwn yn *'unstressed honorific prefix'*. Mae'n arbennig o gyffredin gydag enwau'r seintiau cynnar. Er enghraifft, gellir gweld y rhagddodiad hwn yn glir yn yr enwau *Llandysilio* a *Llandysul*. Anwybyddwch yr elfen *llan* am funud ac edrych ar yr ail elfen heb y treiglad ar ei blaen. Yr hyn sydd gennym yw *Tysilio* a *Tysul*. Awgrymodd Melville Richards mai enw personol oedd *Sul* yma. Ffurf ar yr enw *Sulien* oedd hwn o bosib, a ffurf anwes neu ffurf fwy anffurfiol arno oedd *Sulio*. Os oedd yr hen Gymry am ddangos eu parch tuag at y sant hwn, newidient yr enw personol i *Tysul* a *Tysulio*. Ystyriwch enghraifft arall: ceir Llanfaelog ym Môn, a thri lle o'r enw *Llandyfaelog*, dau ym Mrycheiniog ac un yn Sir Gaerfyrddin. *Maelog* yw'r sant ym mhob un, ond yr oedd y Deheuwyr yn fwy parchus ohono na'r Monwysion, gan iddynt hwy roi'r *ty- / dy-* anrhydeddus o flaen ei enw.

Nid wyf wedi anghofio am *Landygái*. Yr hyn sydd gennym yma yw'r enw *Cai* gyda'r *ty- / dy-* anrhydeddus o'i flaen. Gellwch weld yn awr pam mae'r acen ar y sillaf olaf. Nid *Tegai* sydd yma ond *Tygai*. Ar yr ail sillaf mae'r pwyslais: fe gofiwch mai rhagddodiad *'unstressed'*, sef diacen, oedd *ty-*. Newidiwyd y sillafiad i ddangos ein bod wedi sylweddoli beth oedd gwir darddiad yr enw. Ond roedd atgof o'r enw gwreiddiol yn fyw yn isymwybod y trigolion lleol trwy'r canrifoedd, gan eu bod bob amser trwy reddf wedi pwysleisio'r sillaf olaf ar lafar yn enw *Llandygái.*

SASIWN Y CHWIORYDD Y GOGLEDD

ELIZABETH EVANS

Nos Fercher, Mai 1af, cafwyd dathliad diwedd y tymor yng Ngholeg Menai. Daeth 17 o chwiorydd ynghyd i fwynhau pryd hynod flasus ac fe gafwyd noson hwyliog dros ben.

Ar Fai 7fed, aeth Eirian, Liz, Gwenno ac Elizabeth, ynghyd â chwiorydd o Fôn, Caernarfon a Bethesda, i Sasiwn Chwiorydd y Gogledd yn yr Wyddgrug.

Yn ystod cwrdd y pnawn, dan lywyddiaeth Marion Simkin, Nercwys, cafwyd eitem hyfryd gan blant Ysgol Gynradd Glanrafon, Yr Wyddgrug. Y siaradwyr oedd Elinor Owen a Sarah Morris. Buont yn rhoi rhagor o wybodaeth am y Cynllun Dorcas.

Yng nghyfarfod yr hwyr, dan lywyddiaeth Eirlys Wright, Cyffordd Llandudno, cafwyd eitem gan Barti'r Siswrn, Yr Wyddgrug. Yna cawsom sgwrs gan Carys Humphreys. Mae wedi treulio 27 mlynedd yn Taiwan fel cenhades. Mae'r swyddfeydd yn cynnwys saith llawr mewn adeilad anferth, gyda thua 80 o weithwyr. Yn ogystal â gweithio yn y swyddfa, mae Carys a'i ffrind Po-Qui wedi agor eu cartref i unrhyw un sydd angen cymorth ymarferol neu le i encilio am sbel. Roedd yn datgan ei diolchgarwch i'r Sasiwn am eu cymorth ariannol blynyddol tuag at y gwaith yn Taiwan.

Mae'r casgliad eleni yn debyg o fod dros £17,000 ac fe gynhelir Sasiwn 2014 yng Nghapel Salem, Dolgellau.

SEIAT ICHTHUS

ALWYN ROBERTS

Mae dynoliaeth erioed wedi gofyn PAM a SUT ac yn sicr ym myd gwyddoniaeth. Mae'r Gwrthdrawyr Hadronau Mawr fel petai yn cadarnhau bodolaeth Boson Higgs, gronyn y damcaniaethwyd yn ei gylch gan Higgs. Credir ei fod yn sylfaenol yn Theori'r Bang Mawr, sef dechreuad y Cread. A yw hyn yn cadarnhau neu'n gwadu bodolaeth ein Duw?

Emyr Griffiths

Rhyfyg ar ran unrhyw un nad yw'n arbenigwr mewn maes hynod o ddyrys yw cynnig sylw ar ddamcaniaeth Peter Higgs. Yn 1993 cynigiodd William Waldegrave, sef y Gweinidog Gwyddoniaeth ar y pryd, wobr i unrhyw un a allai egluro'r ddamcaniaeth ar ddwy dudalen A4! Roedd ymgais yr enillydd yn cynnig cymhariaeth - 'Bwriwch fod nifer o bobl yn sefyllian mewn ystafell mewn cynhadledd wleidyddol. Does dim patrwm i'w sefyll - rhai unigolion, rhai grwpiau bychain. Yna daw Mrs Thatcher i mewn i'r ystafell ac mae'r grwpiau a fu gynt ar chwâl yn dechrau clystyru o'i chwmpas.' Un o broblemau damcaniaeth y Bang Mawr oedd sut yr oedd yr egni a ryddhawyd yn y ffrwydrad yn ffurfio 'mass' sef cyfuniad o egni a sylwedd. Damcaniaeth Higgs (ac eraill) oedd bodolaeth gronynnyn gyda'r gallu i beri clystyru (sef Mrs Thatcher y gymhareb!). Ffrwyth rheswm a dychymyg gwyddonol oedd y ddamcaniaeth ac fe fu'n rhaid disgwyl am hanner canrif cyn cael arbrawf i'w gwireddu.

Parodd hyn i rai sôn am y gronynnyn fel y *God Particle* - enw a gondemniwyd gan Higgs, sydd ei hun yn anghredadun. Fe ddylid ei gondemnio gan ddiwinyddion hefyd os yw'n awgrymu lleoli'r Duw anghymharol mewn un gronyn ymhlith llaweroedd! A yw hyn yn cadarnhau neu'n gwadu bodolaeth Duw yw cwestiwn Emyr. I mi, nac ydyw, a hynny am ddau reswm. Yn gyntaf nid yw un darganfyddiad gwyddonol arall, pa mor arwyddocaol bynnag ydyw yn ei faes, yn gwneud gwahaniaeth i'r ddadl sylfaenol. Yn ail, ac yn bwysicach, mae'r ddadl sy'n gosod gwyddoniaeth a chrefydd yn erbyn ei gilydd fel dau esboniad cystadleuol ar natur byd a bywyd yn ddadl ffals. Nid yw credu yn y naill yn golygu gwrthod y llall. Efallai y dylem sylwi ar ddau air yng nghwestiwn Emyr ac awgrymu nad cwestiwn crefyddol yw SUT - ond mae PAM yn wahanol!

Y GORNEL WEDDI

J. W. JONES

"Fe godaf, ac fe af at fy nhad"

Dyma gymal sydd yn adnabyddus inni fel rhan o ddameg y Mab Colledig lle mae y mab fengaf yn sylweddoli ei stad ac yn penderfynu gwneud rhywbeth ynghylch y sefyllfa. Toes dim rhaid i bethau fynd yn argyfwng cyn gweithredu ond yn aml dyna beth sydd yn digwydd. Pan mae'n mynd yn argyfwng yna clywn lawer yn dweud "Biti na fuasai rhywun wedi gwneud rhywbeth yn gynt! "Fel aelodau o Eglwys Iesu Grist cawn sawl cyfle i weithredu a'n dyletswydd ydi ymateb hyd eithaf ein gallu. Os na allwn fod yn un o Fugeiliaid y Stryd mi allwn weddïo dros eu hymdrechion sydd yn ateb un o ofynion ein dinas. Cawsom gyfle yn ddiweddar i gyfrannu at ymdrechion Cymorth Cristnogol. Manteisiwn ar bob cyfle ddaw i'n rhan.

Gweddïwn,

Ein Tad, cofiwn am yr anghenus yn ein byd sydd yn galw arnom i'w helpu, boed inni fod yn gwrando am eu herfyniadau boed yn lleol neu ymhell. Helpa ni i fanteisio ar bob cyfle ddaw i'n rhan i glodfori Dy enw mawr. Helpa ni i ofyn i ni ein hunain pan welwn angen yn dy fyd "Beth allai fy nghyfraniad i fod?" Diolch ar yr un pryd am bob gweithred dawel ddiffwdan sydd yn digwydd yn barod yn ein gwlad a'n dinas ac awn ymlaen yn Dy nerth i wneud mwy.

Er mwyn Dy enw, Amen.

PNAWN SUL am 3 o'r gloch HYDREF 20fed
ym MEREA NEWYDD cynhelir

DATHLU 10

Cyngerdd Dathlu'r Deg

yng nghwmni

CÔR SEIRIOL AC ARTISTIAD ERAILL

YR ARWEINYDD FYDD NIA CERYS A'R LLYWYDD FYDD MRS. ELEN OGWEN JONES

Am fwy o fanylion cysylltwch â Liz Roberts 353915

TAITH PERERIN GOGLEDD CYMRU 2013

GERAINT PERCY JONES

Ddydd Sadwrn Mai 11eg mater o lawenydd oedd bod dau ar bymtheg o aelodau a chyfeillion Berea Newydd wedi ymuno am ddiwrnod â Thaith y Pererin 2013 i ddathlu ein penblwydd fel eglwys yn ddeg oed eleni.

Yn Hydref 2010 y sefydlwyd Cymdeithas Taith y Pererin, a hynny wedi i'r Gwir Barchedig Chris Potter, Archddiacon Llanelwy, a'i briod Jenny, gerdded y 700 milltir o Le Puy yn Ffrainc i Santiago de Compostela yng ngorllewin Sbaen a dilyn un o brif Lwybrau Pererindod Ewrop ers mil a rhagor o flynyddoedd. Amcan y Gymdeithas yw creu llwybr cerdded hirbell yng ngogledd Cymru sydd yn cysylltu mannau o ddiddordeb crefyddol a hanesyddol rhwng Abaty Dinas Basing ger Treffynnon ac Ynys Enlli. Y mae'r Gymdeithas hefyd yn awyddus i gynnig i bererin yr 21ain ganrif flas ar ein hetifeddiaeth ysbrydol a diwylliannol cyfoethog.

Y cynnig i aelodau Berea Newydd oedd ymuno â'r pererindodwyr ar y cymal deng milltir o Abergwyngregyn neu gerdded pum milltir o bentref Llandygái trwy Dal-y-bont, draw i Borth Penrhyn, ac yna i fyny'r Stryd Fawr i gyrraedd y Gadeirlan ym Mangor. Pedwar a fentrodd ar y daith hir - Cynthia Owen, Sara Tudor, Gareth Tilsley a Geraint Percy. Ar ôl y dringo caled i gyrraedd y Ffridd Ddu yr oedd gweddill y daith ar i waered draw at fferm Bronnydd Isaf, yna ar hyd y ffordd i gyfeiriad Llanllechid gan ddilyn Llwybr y Gogledd. I'r cerddwyr i gyd yr oedd gweld adeilad hardd Neuadd Cochwillan yn drawiadol. Ychydig a wyddai am gysylltiad Cochwillan â'r Archesgob John Williams (1582-1650), y gŵr a gysegrwyd yn Archesgob Caerefrog yn 1641. Ganed John Williams yng Nghonwy ac fe'i claddwyd yn Llandygái. Ar ddechrau'r Rhyfeloedd Cartref cefnogai'r Brenin Charles 1 ond erbyn 1646 yr oedd yn cynorthwyo lluoedd y Senedd. Cred rhai haneswyr na fyddai'r Rhyfeloedd Cartref wedi digwydd petai Charles wedi gwrando ar John Williams yn hytrach nag ar Archesgob Laud.

Un o bleserau teithio yw darganfod ein hunain yng nghanol mannau y mae cyswllt rhyngddynt a chymeriadau dylanwadol y gorffennol. Yma yng Nghochwillan, ymfalchïwn ni'r Cymry fod croeso i feirdd megis Guto'r Glyn, Ieuan Deulwyn, Lewys Môn, Dafydd Llwyd o Fathafarn a Lewys Daron ac eraill ar aelwyd Wiliam

Gruffudd ap Robin a'i deulu cyn dyddiau'r Archesgob. Yn y blynyddoedd rhwng 1485 a 1500 y codwyd y neuadd ysblennydd hon mae'n debyg.

Ar ôl cyrraedd Melin Cochwillan a phont droed dros ran hyfryd o Afon Ogwen, ymunem â thri ar ddeg a gychwynasai ar eu taith bum milltir hwy o bentref Llandygái dan arweiniad Delyth Oswy Shaw a Meira Jones. Braf iawn oedd gweld ymhlith y rhain y bechgyn ifanc Tomos, Meilyr, Guto a Ioan. Yr oedolion yn y fintai oedd Astra Thomas, Meirion a Manon Davies, Menna Baines, Modlen Lynch, Ruth Owen, ac Esyllt Bryn.

Er disgwyl tywydd braf a hithau'n fis Mai, cafwyd aml i gawod ysgafn o law ac un gawod drom o genllysg oer, ond wrth Borth Penrhyn, gyferbyn â'r Tŷ Mawr, cartref William Williams, y gŵr a gysylltir â Llandygái ac â Stad y Penrhyn, ac un o Gymry mawr y ddeunawfed ganrif ym marn Dafydd Glyn Jones, cafwyd egwyl heulog i fwynhau paned a sgwrs.

Profiad dymunol i'r rhai a allodd ymgynnull y tu allan i borth y Gadeirlan oedd y gwasanaeth dwyieithog byr a gafwyd dan arweiniad Deon yr Esgobaeth, Dr Sue Jones. Heb amheuaeth, yr oedd bod yn rhan o draddodiad Cristnogol sydd yn ymestyn yn ôl dros ganrifoedd ar y llecyn hwn yn ninas Deiniol Sant yn ffordd deilwng i ddathlu degfed penblwydd ein heglwys ifanc ni ym Merea Newydd.

CIC BANG

DELYTH WYN DAVIES

Cynhaliwyd twrnamaint tennis bwrdd cyntaf erioed CIC Bang nos Fercher 3 Gorffennaf gyda 11 o bobl ifanc yn cymryd rhan. Gwahoddwyd Andrew Settatree o Gynllun EFE atom i roi trefn ar y cyfan. Roedd ganddo App arbennig ar gyfer trefnu rowndiau ac ef hefyd oedd dyfarnwr yr holl gemau. Gyda chyffro mawr y cystadu arall yn Wimbledon yn gefndir i'r cyfan ac Andy Murray newydd lwyddo i guro Verdasco ar ôl bod ar ei hôl hi er mwyn cyrraedd rownd gyn-derfynol, cafwyd cystadlu brwd a'r gefnogaeth yn hwyliog. Wedi'r rownd gyn derfynol cawsom sgwrs amserol gan Andrew yn sôn am y fuddugoliaeth fwyaf a geir yn Iesu. Yna cynhaliwyd y rownd derfynol gyda Gruff Pari yn curo Rhun Gwilym i ennill tlws arbennig CIC Bang. Llongyfarchiadau mawr iddo!

SALM AC EMYN

MEDI 1		
Salm 1	Guto Llŷr Davies	53 Rhys Owen
MEDI 8		
Salm 8	Siwan Huw Williams	115 Efa Williams
MEDI 15		
Salm 19: 1-2	Owain Jones	116 Dewi Walker Jones
MEDI 22		
Salm 23	Tomos Lynch	148 Meilyr Lynch
MEDI 29		
Salm 24: 1-6	Carwyn Siôn	151 Iolo Evans Jones
HYDREF 6		
Salm 27: 1-4	Gwion Siôn	147 Ifan Siôn
HYDREF 13		
Salm 29: 1-4	Gwen Roberts	145 Rhys Roberts
HYDREF 20	**DATHLU'R 10**	
Salm 33:1-4	Lois Medi Wiliam	52 Llio Eurgain
HYDREF 27	**GWYLIAU HANNER TYMOR**	

MASNACH DEG

Cofiwch bob amser ein bod wedi cytuno fel eglwys i ymrwymo i Fasnach Deg, felly cofiwn ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg, megis coffi, siwgr a bisgedi, yn ein holl gyfarfodydd.

OS AM GYFRANNU I'R RHIFYN NESAF O ICHTHUS, YNA GALLWCH:

➽ **EI YRRU I 4 GOLEUFRYN, PENRHOSGARNEDD LL57 2LY**

➽ *neu* **GYRRWCH E-BOST AT** *gdeiniol@hotmail.com*

I GYRRAEDD ERBYN Y 1af O HYDREF OS GWELWCH YN DDA

Y DIGWYDDIADUR

HYDREF

Nos Iau, 10fed	Y Gymdeithas - Mari Gwilym 7.00 o'r gloch
Dydd Sul 20fed	Capel Berea Newydd, 3 o'r gloch **CYNGERDD DATHLU'R DEG** yng nghwmni CÔR SEIRIOL ac artistiaid eraill *(gweler hysbyseb ar dudalen 19 am fanylion llawn)*
Dydd Llun 21ain	Cyfarfodydd Diolchgarwch Chwiorydd - Pnawn, 2 o'r gloch Brodyr - Hwyr, 7 o'r gloch

GAIR O DDIOLCH

Dymuna Mr Ralph Lewis a Laura ei wraig ddiolch o galon i aelodau a ffrindiau am eu haelioni ar achlysur eu hymddeoliad fel gofalwyr Berea Newydd. Cawsant ddeg mlynedd hapus iawn yn y gwaith a gwneud llawer o ffrindiau newydd yn ystod y cyfnod. Dymunant bob llwyddiant i'r Capel yn y dyfodol.

Hoffwn ddiolch o galon i bawb am bob caredigrwydd, cymwynas a gweddi yn ystod fy anhwylder yn ddiweddar.
Bu'r cyfan yn gymorth gwirioneddol imi fendio. Diolch i chi gyd.

Cofion, Val

GWEFAN NEWYDD

Cofiwch droi at www.henaduriaetharfon.org

DAU FEDYDD

Chwith: Ani Glyn gyda Meilir a Sian. Dde: Lal Ifan, merch Aled a Llio

MOLIANT Y PLANT

Dyma Heddwen Lois yn arwain Moliant y Plant ym Methesda ar y trydydd Sul o Fehefin. Llongyfachion i'r plant a ennillodd wobr a thystysgrif hyfryd a luniwyd gan Mrs Lynn Jones, Bryn Tawel. Cofiwch, bydd y Moliant yn Merea Newydd y flwyddyn nesaf.